# LLEISIAU PENNAL

## COGURDD

Cynhaliwyd cystadleuaeth Cogurdd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 sydd yn aelod o'r Urdd prynhawn dydd Mawrth, 5ed o Dachwedd yn Ysgol Pennal ar gyfer disgyblion y ddwy ysgol.

Roedd hi'n braf gweld gymaint yn cystadlu i wneud wrap. Diolch yn fawr i Mrs Mair Jones am feirniadu.

Eleni, yr enillwyr oedd
1af - Tomos Parry
2il - Otis Jones
3ydd - Dylan Evans







## COGURDD RHANBARTH

Bu Tomos Parry (Blwyddyn 5) yn cystadlu yn y Cogurdd Rhanbarth Meirionnydd un bore Mercher. Nid oedd Tomos yn llwyddiannus eleni, ond roedd y byrger yn edrych yn flasus dros ben! Da iawn ti, dipyn o gamp paratoi a coginio byrger mewn 45 munud.

## POBURDD




Eleni, am y tro cyntaf roedd cystadleuaeth Poburdd hefyd. Roedd y disgyblion wedi bod yn brysur yn pobi myffins adref a cafodd y myffins ei feirniadu yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r canlynol :

1af - Grace Hussein
2il - Cali Higgs
3ydd - Bleddyn Frohawk

## HEB AMAETH HEB FAETH




Ar y 19eg o Dachwedd penderfynodd plant Ysgol Pennal y byddai'n syniad da i wisgo welis i'r ysgol er mwyn dangos ein bod yn cefnogi ffermwyr. Aeth miloedd o ffermwyr i brotestio lawr yng Nghaerdydd a Llundain. Heb ffermwyr, does dim bwyd. Roeddwn yn falch o gefnogi Ffermwyr Cymru drwy wisgo ein welis am y diwrnod. HEB AMAETH, HEB FAETH. Ysgrifennwyd gan Tomos a Curig

**TACHWEDD A RHAGFYR 2024**

**YSGOL PENNAL**

# GWASANAETH COFIO





Ar fore dydd Llun, 11/11/24 aeth disgyblion a staff yr ysgol draw at y gof golofn yn y pentref.
Cawsom wasanaeth gan Mr Rambsbottam a 2 funud o dawelwch am 11yb. Eleni, Pearl oedd yn gosod y torch o babi ar y cofgolofn ar ran disgyblion Ysgol Pennal.

# GWASANAETHAU HAWLIAU PLANT

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Cynhaliwyd dau wasanaeth rhithiol yn ystod mis Tachwedd wedi ei drefnu gan E-Sgol. Roedd un o'r Gwasanaethau ar Ddiwrnod Caredigrwydd a thrafodwyd pwysigrwydd bod yn garedig. Roedd y Gwasanaeth arall yn ymwneud a Hawliau Plant ac rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar Hawliau plant yn y dosbarth.

# DIWRNOD TROSGLWYDDO BRO HYDDGEN

Cynhaliwyd Ddiwrnod Trosglwyddo yn Ysgol Bro Hyddgen ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6. Cafodd tair disgybl Blwyddyn 6 ddiwrnod da yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Addysg Gorfforol a Gwyddoniaeth yn ystod y dydd.

TACHWEDD A RHAGFYR 2024

YSGOL PENNAL

# DIWRNOD PLANT MEWN ANGEN

Ar Ddiwrnod Pydsi trefnom ni, y Cyngor Ysgol, i bawb gael gwisgo pyjamas a dod ag tedis i'r ysgol. Yn y prynhawn rydym ni wedi gwneud cwis 'Kahoot' am hanes Plant Mewn Angen ac roedd pawb wedi mwynhau. Chwaraeom gêm o 'Pydsi Pong' efo cwpanau a phêl. Rydych chi angen taflu pêl mewn i'r pot ac adio'r sgoriau er mwyn cael y cyfanswm uchaf. Roedd hi'n ddiwrnod llawn hwyl! Codwyd £49 tuag at yr elusen.

Ysgrifennwyd gan y Cyngor Ysgol, Lexi, Jack, Melys, Angharad ac Amy.







# CASGLIAD BAG2SCHOOL


Yn ystod y wythnosau diwethaf, casglwyd 110kg o ddillad ar gyfer casgliad Bag2School. Codwyd £22 ar gyfer Cronfa Ysgol Pennal. Dyma Amy yn cario'r bagiau i'r fan ar ddiwrnod y casgliad. Diolch yn fawr am gefnogi.



## TACHWEDD A RHAGFYR 2024

## YSGOL PENNAL

# GWEITHDAI TECHNOCAMPS



Ar Ddydd Iau, 28ain o Dachwedd daeth Lois o Technocamps i wneud gwaith yn defnyddio'r 'Crumble' a 'Sparkle'. Mae'r rhain yn bethau codio arbennig sy'n gallu dilyn cyfarwyddiadau a goleuo fyny. Bum yn codio y 'Sparkle' i wneud goleuadau'r enfys ac i fflachio'n ôl a blaen fel goleuadau Nadolig. Diolch Lois am ddod i'r ysgol atom, rydym bob amser yn mwynhau eich sesiynau.
Ysgrifennwyd gan Leafin, Iestyn a Tau





Diolch yn fawr hefyd i Lois am wirfoddoli i ddod i Ysgol Pennal ar ran cwmni Techniquest in hatgoffa ni sut i godio. Codio ydi rhoi cyfarwyddiadau. Cawsom ni roi cyfarwyddiadau i wneud i 'Sphero' symud. Robot siâp pel fel sffêr ydi 'Sphero'. Roeddym ni'n dysgu rhoi cyfarwyddiadau i yrru 'Sphero' o amgylch Ysgol Pennal efo ipad. Roedd angen anelu'r golau glas at ein traed yn gyntaf, neu roedd 'Sphero' yn crasio! Roedd pawb yn gallu rhoi cyfarwyddiadau i yrru 'Sphero' o amgylch sgityls i wneud siap 8. Mae pawb yn gallu ffurfio'r rhif wyth yn well rwan! Cyn i Lois adael Ysgol Pennal am y tro olaf, cawsom ni roi cyfarwyddiadau i 'Sphero' wneud animeiddiadau fel calon, golau disgo a phatrymau o'n dewis ni. Pob lwc i Lois yn ei swydd newydd fel athrawes mathemateg. Mae plant Ysgol Llangefni yn lwcus iawn.
Ysgrifennwyd gan Jack, Riley, Arrow, Robin, Harry ac Amy (Blwyddyn 2)

# TACHWEDD A RHAGFYR 2024

# YSGOL PENNAL

## PANTOMEIM




Ar yr 22ain o Dachwedd aeth plant Ysgol Pennal ac Ysgol Dyffryn Dulas Corris i'r Bala i Ysgol Godre'r Berwyn i weld Pantomeim Culhwch ac Olwen. Roedd y sioe mor ddoniol a lliwgar ac roedd yna lawer o jôcs doniol a llawer o ganu a dawnsio. Roedd y sioe am fachgen ifanc efo mam lys cas a merch ifanc efo dad gwallgof. Cafodd y bachgen ei roi dan swyn i garu merch o'r enw Olwen, ond doedden nhw erioed wedi cwrdd o'r blaen. Roedd y panto yn un arbennig a hoffwn fynd eto rhywbryd. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn!
Ysgrifennwyd gan Pearl a Cali



## GWEITHDAI CAMAU CERDD PLANT BACH



Diolch yn fawr i Charlotte Pulsford, Camau Cerdd am ddod yr holl ffordd i Ysgol Pennal yn y glaw mawr! Roedd Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd wedi trefnu cynnal gweithgareddau cerdd gyda'r plant bach.
'Da ni wedi cael lot fawr o hwyl yn gwrando ar rhythmau, darllen rhythmau a symud i wahanol rhythmau. Roedd clapio ein dwylo a stampio ein traed i rhythmau gwahanol yn heriol iawn! Roedd rhaid canolbwyntio go iawn! Roedd Mrs Lockett yn cael trafferth hefyd! 'Da ni wedi gwneud cynnydd gyda'n sgiliau gwrando a defnyddio geiriau rhythm fel piano a 'forte'! Forte oedd ein hoff air gan fod 'forte' yn golygu ein bod ni'n cael gwneud synau uchel a chryf!
Ysgrifennwyd gan Silyn, Emilia, Llewyn ac Ayda (Dosbarth 3-7 oed)



# TACHWEDD A RHAGFYR 2024

# YSGOL PENNAL

## FFAIR NADOLIG

Ar y 29ain o Dachwedd roedd Ffair Nadolig yng Nghanolfan Pennal. Ar y stondin roedd fferins, siocled poeth, addurn bwrdd a gem. Dim ond dau blentyn lwyddodd i ennill y gêm.
Roeddwn wedi perfformio 4 can sef ‘Brysiwch lawr y grisiau’, ‘Mae’n amser gŵyl’, ‘Pen-blwydd hapus i'r baban Iesu’ a ‘Braf yw bwyta’.
Roedd y Ganolfan yn llawn pobl ac roedd o’n Nadoligaidd iawn. Rydym wedi gwneud y stondin er mwyn codi arian i'r ysgol a wnaethom elw o £118.
Roedd y ffair yn llwyddiannus iawn ac rydym yn teimlo’n Nadoligaidd a hapus iawn ar ei ôl. Diolch trigolion pentref Pennal.
Ysgrifennwyd gan Talitiu, Nia, Harry a Bleddyn.











## FFENESTR ADFENT

Rhif 5 oedd Ffenestr Adfent Ysgol Pennal eleni a rydym yn mwynhau cefnogi Ffenestri Adfenf pentref Pennal.

**TACHWEDD A RHAGFYR 2024**

**YSGOL PENNAL**





# GWEITHDAI FRANWEN

’Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn rhan o brosiect ‘Tirwedd’ dan arweiniad Cwmni Fran Wen ac wedi mwynhau’r gweithdy cyntaf. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 dalgylch Dysynni yn dod at eu gilydd yn ystod y gweithdai. Mae'r gweithdai hyn yn anelu i ddathlu Cymreictod a dwyieithrwydd ein plant. Mae artistiaid dawns a symud, ac artistiaid celf gweledol wedi bod yn gweithio gyda’r disgyblion. Bydd hyn yn arwain at ddathliadau Dydd Gwyl Dewi 2025, ble bydd y plant yn cyd-rannu a dathlu’r cymeriadau gyda’r ysgolion eraill a gweddill y byd!

# DIWRNOD SIWMPER NADOLIG

Dydd Iau, 12fed o Ragfyr, daeth staff a disgyblion i’r ysgol yn gwisgo Siwmper Nadolig.



**TACHWEDD A RHAGFYR 2024**

## YSGOL PENNAL



# SIOE NADOLIG

Rydym wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf yn ymarfer at y Sioe Nadolig. Eleni, 'Hen Ddyn Doeth y Lleuad' oedd Sioe y Ffederasiwn.
Cawsom ambell i ddiwrnod yn Ysgol Dyffryn Dulas yn ymarfer ar y cyd, a rydym yn ddiolchgar i'n rhieni a'm cludo i Gorris.
Rydym yn mwynhau perfformio a cawsom berfformiad llwyddiannus iawn a pawb yn mwynhau.













**TACHWEDD A RHAGFYR 2024**

# YSGOL PENNAL

## PARTI NADOLIG





Yn ystod yr wythnos olaf, cawsom llawer o hwyl yn Parti Nadolig y Ffederasiwn yn Ysgol Dyffryn Dulas. Daeth Sion Corn i'n gweld, gan ein bod wedi bod yn blant da yn ystod y flwyddyn.
Cawsom ddisgo a gemau hwyl yn ystod y dydd







## GWASANAETH CRISTINGL









Ar ddiwrnod olaf y flwyddyn, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Cristingl blynyddol yn Eglwys Pennal. Diolch yn fawr i Mr Rambsbottam am arwain y gwasanaeth. Cafodd pob un disgybl yr ysgol Cristingl i fynd adref, ar ol canu ambell i gan Nadoligaidd.

# CINIO NADOLIG





Diolch yn fawr i Anti Kim am baratoi cinio nadolig blasus iawn i ni eleni. Rydym yn ddiolchgar iawn i Anti Kim am baratoi cinio blasus bob dydd, ond roedd y cinio nadolig yn arbennig iawn.



# GWEFAN

Ewch ar wefan newydd yr ysgol
www.ysgolcorrisapennal.cymru